**Adran Addysg**
Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road,
Abertawe SA1 3SN
www.adran.addysg@abertawe.gov.uk

Annwyl Riant/Ofalwr

**Derbyn - Medi 2025**

Ym mis Medi 2025 bydd angen i'ch plentyn gael lle amser llawn mewn dosbarth Derbyn mewn ysgol gynradd. Bydd angen i chi wneud cais am le mewn ysgol gan ddefnyddio'r porth gwneud cais ar-lein rhwng y dyddiadau isod:

| | |
|---|---|
| **Porth derbyniadau yn agor** | **ddydd Llun 7 Hydref 2024** |
| **Porth derbyniadau yn cau** | **ddydd Gwener 29 Tachwedd 2024** |

Chi sy'n gyfrifol am gyflwyno cais ac am wneud hynny mewn da bryd. Os nad ydych chi'n cyflwyno cais ni fyddwch yn derbyn cynnig am le mewn ysgol. Ni fydd eich plentyn yn cael lle mewn ysgol yn awtomatig.

Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried yn geisiadau HWYR. Ni chaiff ceisiadau hwyr eu prosesu tan ar ôl i bob cais a gyflwynwyd mewn pryd gael cynnig lle mewn ysgol ar y diwrnod cynnig statudol.

Y diwrnod cynnig ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd mewn pryd yw 16 Ebrill 2025.

## Gwybodaeth Bwysig

- Chi sy'n gyfrifol am gyflwyno cais ac am wneud hynny mewn da bryd. Ni allwn gynnig lle i'ch plentyn tan i chi wneud eich cais. Ni fydd eich plentyn yn cael lle mewn ysgol yn awtomatig.

- Byddwn yn ceisio ystyried dewis rhieni, fodd bynnag sylwer ar y canlynol:-

  - **Nid** yw byw yn y dalgylch yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
  - **Nid** yw cael brawd neu chwaer o oedran ysgol statudol sydd eisoes yn yr ysgol yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
  - **Nid** yw bod yn y Dosbarth Meithrin mewn ysgol gynradd yn rhoi hawl awtomatig i'ch plentyn gael lle yn y Dosbarth Derbyn, ac **nid** yw'n gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
  - **Nid** yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg.
Byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall, ffoniwch Cefnogi Addysg ar ☎ 637400
To receive this information in an alternative format please contact Education Support ☎ 637400

- Mae'r cais yn caniatáu i chi ddewis mwy nag un ysgol. Dylech ystyried defnyddio pob dewis - mae gennych dri. Trwy wneud hyn bydd gennych well cyfle o gael lle mewn ysgol o'ch dewis. Dylech hefyd ystyried defnyddio'ch ysgol ddalgylch fel dewis.

- Ydych chi wedi ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn? Am wybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg ewch i www.abertawe.gov.uk/addysgGymraegynAbertawe

- Rhoddwyd newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ar waith ym mis Medi 2021 ac mae'n bosib bod yr ysgol ddalgylch ar gyfer eich cyfeiriad cartref wedi newid. I wirio'r ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, e-bostiwch derbyniadau@abertawe.gov.uk

- Peidiwch â thybio eich bod mewn dalgylch oherwydd eich bod yn byw yn agos at ysgol. E-bostiwch Derbyniadau@abertawe.gov.uk i wirio'ch ysgol ddalgylch.

- Os ydych yn gwneud cais am le mewn ysgol nad yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, chi fel rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am gost cludo'ch plentyn i'r ysgol ac oddi yno. Cyfeiriwch at ein gwefan am fanylion Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr awdurdod lleol - www.abertawe.gov.uk/cludiantirysgol

- Os ydych chi'n byw y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe (h.y. rydych chi'n talu'ch treth y cyngor i awdurdod lleol gwahanol) awgrymwn yn gryf eich bod chi hefyd yn gwneud cais gyda'ch awdurdod lleol. Os na allwn gynnig lle i'ch plentyn yn un o'ch ysgolion dewisol yn Abertawe, ni fyddwn yn cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol arall yn Abertawe.

- Fel arall, os ydych chi'n byw yn Ninas a Sir Abertawe a hoffech wneud cais am ysgol mewn awdurdod lleol arall, cysylltwch â'r awdurdod lleol perthnasol a fydd yn gallu dweud wrthych am ei weithdrefnau derbyn. Gallwch hefyd wneud cais am le mewn ysgol yn Abertawe os na fydd eich dewis ysgol y tu allan i'r sir yn cael ei gynnig i chi.

- Os ydych wedi symud cartref yn ddiweddar, sicrhewch eich bod wedi diweddaru'ch cyfeiriad gydag ysgol bresennol eich plentyn.

## Sut i wneud cais

Y ffordd hawsaf o wneud cais yw ar-lein. I wneud hyn bydd angen i chi gofrestru ar wefan Derbyniadau Ysgolion Cyngor Abertawe. Bydd angen cyfeiriad e-bost dilys arnoch. Mae'r system yn addas i'w defnyddio gyda nifer o ddyfeisiau electronig, gan gynnwys ffonau symudol. Mae'r broses ymgeisio'n bwysig iawn ac mae llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2025/2026 yn manylu ar sut y dylech wneud cais, sut mae lleoedd yn cael eu dyrannu a meini prawf gorymgeisio'r awdurdod lleol os bydd ysgol yn derbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael.

**LLYFRYN GWYBODAETH I RIENI 2025/2026**

www.abertawe.gov.uk/gwybodaethirieni

**Mae'n hanfodol eich bod chi'n darllen y llyfryn oherwydd bydd yn rhaid i chi gadarnhau eich bod wedi darllen yr wybodaeth cyn i chi wneud eich cais.**

**GWNEWCH GAIS AR-LEIN GAN DDEFNYDDIO PORTH GWNEUD CAIS Y CYNGOR**

www.abertawe.gov.uk/gwneudcaisysgol

Os nad oes modd i chi ddefnyddio cyfrifiadur neu unrhyw un o'r dyfeisiau y sonnir amdanynt uchod gartref, neu os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais, gallwch gael help gan:

- ysgol gynradd eich plentyn
- Canolfan Gyswllt y Ganolfan Ddinesig, SA1 3SN / eich llyfrgell leol
- y Tîm Derbyniadau - ffoniwch 01792 636550 neu e-bostiwch derbyniadau@abertawe.gov.uk
- mae nodiadau arweiniol ar gael ar y wefan

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y broses gwneud cais neu os hoffech gael copi papur o unrhyw un o’r dogfennau, cysylltwch â’r Tîm Derbyniadau.

## Rhestr Wirio ar gyfer Gwneud Cais

- ☐ Wedi darllen y llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2025/2026
- ☐ Wedi diweddaru'ch cyfeiriad gyda'r ysgol, os yw wedi newid
- ☐ Wedi gwneud cais mewn pryd
- ☐ Wedi defnyddio pob dewis
- ☐ Wedi ystyried defnyddio'ch ysgol ddalgylch fel dewis
- ☐ Wedi gwasgu **CYFLWYNO** ar ôl cwblhau'ch cais ar-lein
- ☐ Wedi gwirio eich bod wedi derbyn e-bost sy'n cadarnhau bod y cais wedi'i gyflwyno - mae'r e-bost hwn yn rhestru'r ysgolion dewisol rydych wedi'u dewis.
- ☐ Gallwch **AILGYFLWYNO** eich cais os oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau **(gallwch wneud newidiadau yn ystod y cyfnod gwneud cais yn unig)**

**Chi sy'n gyfrifol am gyflwyno cais ac am wneud hynny mewn da bryd. Os nad ydych chi'n cyflwyno cais ni fyddwch yn derbyn cynnig am le mewn ysgol. Ni fydd eich plentyn yn cael lle mewn ysgol yn awtomatig.**

**Sylwer, os byddwch chi'n aros tan y dyddiad olaf i gyflwyno'ch cais ac yn cael anhawster wrth gwblhau'r ffurflen, ni fydd unrhyw gymorth technegol ar gael ar ôl 4.00pm ar y diwrnod cau (29 Tachwedd 2024).**

Yn gywir

**Tîm Derbyniadau**
derbyniadau@swansea.gov.uk